**CYFARFOD COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU
A GYNHALIWYD AM 10:00 AM AR 28 IONAWR 2026 YN CP2 A THRWY TEAMS**

**Yn bresennol:** Michael Imperato (Dirprwy Gadeirydd); Frank Cuthbert; Bethan Price; Ginger Wiegand; Dianne Bevan; Andrew Blackmore.

**Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol:** Shereen Williams (Prif Weithredwr); Tom Jenkins (Pennaeth Arolygon); Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mark Pascoe (Pennaeth Iechyd Democrataidd); Roger Ashton-Winter (Uwch Reolwr Polisi Iechyd Democrataidd); Rhydian Fitter (Uwch Reolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu); Carys Vaughan (Rheolwr Arolygon); Ellie Chapman (Swyddog Polisi Iechyd Democrataidd); Michal Harris-Edwards (Cynorthwy-ydd Gweinyddol).

**Ymddiheuriadau:** Karen Jones (Cadeirydd); Frances Duffy

**Amser Dechrau: 10:33**
**Amser Gorffen: 11:50**

1. **Datganiadau Buddiannau**

   1.1. Dim

2. **Briff gan y Cadeirydd**

   2.1. **Soniodd** y Dirprwy Gadeirydd am y swyddi Comisiynydd gwag. Derbyniwyd 21 o geisiadau am y tair swydd wag. Mae wyth ymgeisydd wedi cyrraedd y rhestr fer a bydd y cyfweliadau'n cael eu cynnal pan fydd y Cadeirydd yn ôl.

   2.2. **Soniodd** y Dirprwy Gadeirydd am gyfarfodydd sefydlu, gan gofnodi themâu sydd wedi dod i'r amlwg ac a fydd yn cael eu trafod yng nghyfarfod y bwrdd ym mis Chwefror. Un newid a wnaed yn syth yw cynnwys y Dirprwy Gadeirydd yn y cyfarfodydd cynllunio agenda.

   2.3. **Soniodd** y Dirprwy Gadeirydd am y cyfarfod a gynhaliwyd rhwng y Cadeirydd a swyddogion Comisiwn y Senedd i drafod y ffordd y bydd aelodau newydd eu hethol yn cael eu sefydlu.

   2.4. **Nododd** y Prif Weithredwr y bu trafodaethau pellach ynglŷn â sefydlu aelodau newydd o'r Senedd a rôl Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC) yn y broses honno, a drafodir yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Chwefror.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2025

3.1. **Penderfynwyd cymeradwyo** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2025 yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar fân newidiadau.

## 4. Materion sy'n Codi

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 21 Ionawr 2026 gan y Prif Weithredwr.

4.2. **Nodwyd** bod fersiwn wedi'i diweddaru o'r Cynllun Corfforaethol wedi cael ei chylchredeg sy'n ystyried etholiadau'n fanwl. Fe'i **cymeradwywyd**, yn amodol ar fân newidiadau.

4.3. **GWEITHREDU**: Y Prif Weithredwr i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cynllun Corfforaethol.

4.4. Trafodwyd yr Adolygiad o Gomisiwn Ffiniau yr Alban i weld a yw'r argymhellion a wnaed yn berthnasol a/neu'n ddefnyddiol i CDFfC.

4.5. Trafodwyd archwilio'r opsiwn o awtomatigrwydd ar gyfer arolygon awdurdodau lleol yn dilyn etholiadau'r Senedd.

## 5. Arolygon

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 21 Ionawr gan y Pennaeth Arolygon ac fe'i **nodwyd**.

5.2. **Nodwyd** y bydd arolwg cymunedol Bro Morgannwg yn cael ei gyhoeddi yfory yn dilyn sesiwn friffio gyda swyddogion y Cyngor fore heddiw.

5.3. **Nodwyd** y bydd arolwg cymunedol Sir Gaerfyrddin yn cael ei gyhoeddi ddydd Gwener yn dilyn sesiwn friffio gyda swyddogion y Cyngor yfory.

5.4. **Nodwyd** y bydd arolwg cymunedol Torfaen yn cael ei gynnal ar ôl y cyfarfod, ac y caiff ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Comisiwn.

5.5. **Nodwyd** bod cyfarfod arolwg cymunedol Caerffili wedi cael ei gynnal, a bod dau newid argymelledig.

5.6. **Argymhellwyd** cadw'r trefniadau presennol yn ward Cwm Aber er gwaethaf yr amrywiant -20% oherwydd bydd ystad dai newydd yn lliniaru hyn.

5.7. **Argymhellwyd** cadw'r trefniadau yn wardiau Crosskeys ac Ynys-ddu o ganlyniad i'r gwrthwynebiadau a fynegwyd trwy gynrychiolaethau.

5.8. **Argymhellwyd** cyfuno wardiau Dwyrain Rhisga a Gorllewin Rhisga yn un ward etholiadol, sef Rhisga.

5.9. **Argymhellwyd** bod ward drefol y Parc yng Nghymuned Aberbargod a Bargod yn cael ei throsglwyddo i Gymuned Gilfach. Nodwyd y byddai hyn yn arwain at amrywiant yn ward Gilfach sydd 17% yn uwch na'r cyfartaledd sirol argymelledig, ac amrywiant yn Aberbargod a Bargod sydd 8% yn uwch na'r cyfartaledd sirol argymelledig. **Nodwyd** bod yr opsiwn hwn yn cael ei argymell yn lle'r opsiwn i gyfuno'r ddwy Gymuned o ganlyniad i wrthwynebiad lleol.

5.10. **Cytunwyd** i fabwysiadu'r newidiadau hyn.

5.11. **Nodwyd** bod y broses sicrhau ansawdd yn cael ei chynnal ar hyn o bryd, gyda'r nod o gyhoeddi arolwg cymunedol Caerffili erbyn diwedd mis Chwefror, yn dibynnu ar gyfieithwyr.

## 6. Cydnabyddiaeth Ariannol

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 28 Ionawr gan yr Uwch Reolwr Polisi Iechyd Democrataidd.

6.2. **Nodwyd** bod yr Adroddiad Blynyddol wedi'i orffen ac y bydd yn cael ei gwblhau'n derfynol i'w gyhoeddi ynghyd â datganiad i'r wasg. Bydd y cynrychiolaethau a'r adroddiad ymchwil yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr ag ef.

6.3. **Nodwyd** y bydd yr adroddiad yn cael ei anfon at yr holl gynghorau, prif gynghorau, awdurdodau parc cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub ac y daw i rym ar 1 Ebrill.

6.4. **Nodwyd** bod Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol wedi cyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr i drafod

papurau ymaddasu. Bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar ddau opsiwn.

6.5. **Nodwyd**, yn rhan o'r broses ymgynghori, y bydd holiadur yn cael ei anfon at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac eraill ynglŷn â rolau uwch, ac y bydd gweithdy'n cael ei drefnu gyda CLlLC, hefyd.

6.6. **Nodwyd** bod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol wrthi ar hyn o bryd yn cynllunio Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf.

6.7. **Nodwyd** y bydd gweithdy arall yn cael ei drefnu gyda grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i archwilio rôl bosibl Cydnabyddiaeth Ariannol wrth geisio eu hannog i sefyll.

6.8. **Nodwyd** y bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yr wythnos nesaf.

6.9. Trafodwyd y geiriad ynglŷn â thaliadau ymaddasu a'i fod yn fyr rybudd i awdurdodau lleol.

## 7. Y Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE)

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 21 Ionawr gan y Pennaeth Iechyd Democrataidd.

7.2. **Penderfynwyd cymeradwyo** cofnodion y cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr, yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar fân newidiadau.

7.3. **Nodwyd** bod y Platfform yn datblygu'n dda a bod statws y prosiect wedi cael ei leihau o goch i oren o ganlyniad i gynnydd gyda'r cyflenwyr System Rheoli Etholiadol (EMS).

7.4. **Nodwyd** bod yr archwilwyr allanol wedi rhannu adroddiad cynnydd byr a'u bod yn fodlon ar ddarparu sicrwydd sylweddol.

7.5. **Nodwyd** bod yr ISP gyda Swyddogion Canlyniadau ar gyfer llofnodion.

7.6. **Nodwyd** y bydd y Platfform yn cael ei brofi yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 2 Chwefror.

7.7. **Nodwyd** bod ymgynghoriadau arweiniad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau, ac Ymgeiswyr ac Asiantiaid wedi cael eu cwblhau ac y bydd

yr arweiniad yn cael ei gyhoeddi cyn hir.

7.8. **Nodwyd** bod sesiynau ymgysylltu wedi cael eu cynnal gyda Gweinyddwyr Etholiadol ynglŷn â'r hyn y mae angen iddynt ei wneud gyda'r platfform.

7.9. **Nodwyd** bod adnoddau i'r cyfryngau wedi cael eu darparu gan Storm and Shelter ac y byddant yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Llywio i'w cymeradwyo.

## 8. Adroddiad ar y Gyllideb – Chwarter 3

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 28 Ionawr gan y Rheolwr Cyllid.

8.2. **Nodwyd** bod hyn yn ystyried y £200,000 a ildiwyd yn ôl i Lywodraeth Cymru.

8.3. **Nodwyd** bod tanwariant posibl o £80-85,000 o hyd.

8.4. **Nodwyd** y bydd costau StormID ar gyfer y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (WEIP) yn cael eu tynnu i lawr ymlaen llaw er mwyn atal problem llif arian.

## 9. Adroddiad Cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 28 Ionawr gan y Rheolwr Cyllid.

9.2. **Nodwyd** bod dau gyfarfod wedi cael eu cynnal, un ar 28 Tachwedd a'r llall ar 21 Ionawr.

9.3. **Nodwyd** bod yr eitemau allweddol yn cynnwys y gofrestr risgiau ar gyfer y swyddogaeth Cydnabyddiaeth Ariannol a'r diweddariadau ar gynnydd arolygon ar gyfer y BRhE a'r WEIP.

9.4. **Nodwyd** bod dau adroddiad mewnol ychwanegol yn cael eu hystyried ynglŷn â rheoli risg a rheolaethau ariannol allweddol.

9.5. **Nodwyd** bod cwestiynau'n parhau ynglŷn â'r safbwynt ar yswiriant indemniad ac amlygwyd bod gwaith ymchwiliol ychwanegol yn cael ei wneud cyn cyflwyno adroddiad i'r Comisiwn ar gyfer penderfyniad.

9.6. Trafodwyd y risg bersonol i Gomisiynwyr a'r angen i egluro'r risg i'r Comisiwn neu Gomisiynwyr unigol sy'n cymryd cyfrifoldeb personol am benderfyniadau maen nhw'n ymwneud â nhw.

9.7. **Nodwyd** bod ymholiadau wedi'u gwneud gyda chyrff cyhoeddus eraill ynglŷn â'u hyswiriant ac y bydd yr ymatebion yn cael eu coladu ar gyfer y Comisiwn.

## 10. Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 28 Ionawr gan y Rheolwr Cyllid.

10.2. Trafodwyd defnyddio deallusrwydd artiffisial a bydd yn cael ei liniaru ar gyfer safbwynt polisi.

10.3. **Cytunwyd** i dderbyn y risgiau yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, gyda rhai newidiadau bach i'r geiriad, ac y bydd manylion yn cael eu datblygu yn seiliedig ar y risgiau a amlygwyd.

## 11. Calendr Digwyddiadau

11.1. Trafodwyd y Cyfarfod Rhyng-Gomisiwn a gynhelir yng Nghaerdydd ar 13 Mawrth.

11.2. Trafodwyd amlder cyfarfodydd wyneb yn wyneb y Comisiwn, gan nodi y cyllidebwyd ar gyfer 6 chyfarfod wyneb yn wyneb.

## 12. Unrhyw Fater Arall – Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol

12.1. **Nodwyd**, oherwydd y materion dadleuol diweddar yn gysylltiedig â Grok AI X, bod Ofcom a'r Undeb Ewropeaidd wedi agor ymchwiliadau i'r mater.

12.2. Mae'r Uwch Reolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn **argymell** nad yw CDFfC yn postio cynnwys newydd ar X hyd nes bod penderfyniad yn cael ei wneud gan Ofcom neu'r Llywodraeth.

12.3. Mae'r Uwch Reolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn **argymell**, os nad oes penderfyniad erbyn 2 Mawrth, bod y Comisiwn yn gwneud un postiad i gyhoeddi lansio'r WEIP a dilyn y Comisiwn ar blatfformau eraill.

12.4. Mae’r Uwch Reolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn **argymell na ddylid** dileu cyfrif X CDFfC, gan ddisgwyl arweiniad pellach gan Ofcom neu’r Llywodraeth.

12.5. **Cytunwyd** i dderbyn yr argymhellion hyn.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 25 Chwefror 2026**